Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU
www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

Cynnwys

GWEITHGAREDD 1
Gweithgareddau Sillafu 4

GWEITHGAREDD 2 Pigog Gogleisiol 5

GWEITHGAREDD 3 Bag/Bocs Teimlo 6

GWEITHGAREDD 4 Oriel Natur 6

GWEITHGAREDD 5 Trysor Cudd 7

GWEITHGAREDD 6 Gwneud Marciau 8

GWEITHGAREDD 7 Cymeriadau Natur 9

GWEITHGAREDD 8
Gêm Enwau Anifeiliaid 10

GWEITHGAREDD 9 Dychymyg Natur 10

GWEITHGAREDD 10 Brigau Teithio 12

GWEITHGAREDD11 Saffari Bychan 12

GWEITHGAREDD 12 Barddoniaeth Natur 13

GWEITHGAREDD 13
Gemau Chwarae ar Eiriau 14

GWEITHGAREDD 14
Ysgrifennu Cyfarwyddiadau 15

GWEITHGAREDD 15 Llwybrau Stori 15

GWEITHGAREDD 16 Bwydlen Natur 17

GWEITHGAREDD 17 Camera Natur 18

GWEITHGAREDD 18 Llwybr Di-natur 18

Angen mwy o adnoddau dysgu, data a gwybodaeth?

E-bostiwch: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fersiwn/iaith arall neu brint bras:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk // 0300 065 3000

PLANT, ADDYSG, DYSGU GYDOL OES A SGILIAU
www.cyfoethnaturiol.cymru/dysgu

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

Cyd-destun

Mae'r llyfryn hwn yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar archwilio byd natur trwy iaith, llythrennedd a chyfathrebu.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw hyrwyddo dulliau cynaliadwy o reoli'n hadnoddau naturiol ym mhob elfen o'n gwaith. Mae hynny'n golygu gwarchod yr aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

Cyflwyniad

Gallwch addasu'r holl weithgareddau canlynol a llawer mwy i'w defnyddio mewn coedwigoedd, ar hyd yr arfordir, mewn parciau lleol, ar dir yr ysgol ac ati.

Daw'r gweithgareddau o ffynonellau amrywiol sydd wedi'u hamrywio a'u haddasu ar hyd y blynyddoedd.

Mae'r holl adnoddau naturiol sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgareddau yn hawdd i'w casglu o leoliadau natur lleol, os nad ydynt ar gael yn eich lleoliad.



// EWCH ATI I DDEWIS A DETHOL o'r gweithgareddau canlynol er mwyn archwilio'r amgylchedd i ddatblygu nawr am le ymhellach, annog gweithgaredd corfforol a hybu lles.

Gwnewch yn siŵr fod eich gweithgareddau yn defnyddio adnoddau cynaliadwy nad ydynt yn effeithio fawr ddim ar yr amgylchedd naturiol

Er enghraifft:

- Cadwch lygad am blanhigion pigog, gwenwynig
- Diogelwch unrhyw rywogaeth a warchodir ar y safle
- Peidiwch â gorddefnyddio un ardal
- Peidiwch â gadael dim byd ond ôl eich troed ar y safle

NOD

Annog pawb i dreulio amser yn cysylltu â natur trwy brofiadau ymarferol cadarnhaol.

Helpu i ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd a'r wybodaeth sydd eu hangen i fodloni pedwar diben Cwricwlwm Cymru.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 1

GWEITHGAREDDAU SILLAFU



Crynodeb

Mae'r gweithgareddau hyn yn annog adnabod llythrennau a chwarae ar eiriau.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Setiau o lythrennau'r wyddor wedi eu hargraffu a'u lamineiddio

Beth i'w wneud...

ENWAU A SAIN LLYTHRENNAU

Gellir defnyddio'r gweithgaredd hwn i ymarfer enwau a sain llythrennau.

Gellir ei gynnal mewn grwpiau bach fel ras redeg neu trwy ddewis dysgwyr ar hap.

1. Gwasgaru'r llythrennau ar y llawr mewn gofod fflat, agored.
2. Dweud enw llythyren benodol o'r wyddor.
3. Yr her yw rhedeg i ddod o hyd i'r cerdyn cywir, ei gyffwrdd neu ei gasglu, ac yna dychwelyd i'r man cychwyn mewn cyn lleied o amser â phosibl.

Gellir gofyn i DDYSGWYR MWY ABL restru enw, berf, ansoddair neu adferf sy'n dechrau gyda'r llythyren.

GÊM FFONIG

1. Rhoi'r dysgwyr mewn grwpiau bach. Yna gofyn iddyn nhw sefyll mewn rhes, un tu ôl i'r llall.
2. Mae'r dysgwr cyntaf ymhob grŵp yn rhedeg i ddod o hyd i lythyren ac yna'n enwi gair sy'n dechrau gyda'r llythyren honno.
3. Yna, mae'r dysgwr yn dychwelyd i'r grŵp ac yn sefyll yng nghefn y rhes.
4. Ailadrodd y gweithgaredd tan i bawb yn y grŵp gael tro. Y grŵp cyntaf i gwblhau'r dasg sy'n ennill yr her.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 2

COSI A CHRAFU

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar ddarganfod gwahanol weadau yn yr amgylchedd naturiol.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

CARDIAU ADNODDAU - Pigog Gogleisiol
DEWISOL – cynwysyddion casglu, e.e. bocsys hufen ia

Beth i'w wneud...

1. Rhoi'r dysgwyr mewn parau neu mewn grwpiau bach.
2. Rhoi set o gardiau adnodd i bob pâr/grŵp.
3. Gofynnwch iddyn nhw weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i dri gwrthrych naturiol sy'n enghraifft o'r geiriau ar y cardiau, e.e. cras a llyfn, caled a meddal.
4. Pan mae pawb yn barod, dewiswch bâr neu grŵp arall a chymryd tro i benderfynu pa eiriau mae pob pâr/grŵp yn ceisio'u cynrychioli.

// *Y nod yw ceisio dyfalu dau air y pâr neu'r grŵp arall.*

5. Gellir parhau â'r gweithgaredd tan iddyn nhw ddyfalu'r geiriau i gyd.

Gellir rhoi cynwysyddion i DDYSGWYR LLAI ABL, fel hen focsys wyau gyda geiriau gweadau wedi eu hysgrifennu ar waelod pob rhan. Casglu un enghraifft ar gyfer pob gair.

Gall DYSGWYR MWY ABL greu eu rhestr eu hunain o wahanol weadau ac ansoddeiriau.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 3

BAG/BOCS TEIMLO

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i archwilio adnoddau naturiol trwy ddefnyddio gwahanol synhwyrau.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Bag neu focs casglu

Beth i'w wneud...

1. Casglu gwahanol wrthrychau o'ch gofod natur lleol.
2. Gosod y gwrthrychau yn y bag neu'r bocs.
3. Gyda'u llygaid ar gau neu gan ddefnyddio mwgwd, mae pob dysgwr yn cymryd tro i ddewis gwrthrych a'i dynnu allan.
4. Dylent archwilio'r gwrthrych gan ddefnyddio cymaint o wahanol synhwyrau â phosibl, heblaw'r golwg, gan ddisgrifio sut mae'r gwrthrych yn teimlo, arogli a pha sain mae'n ei wneud er mwyn trio dyfalu beth yw e.

GWEITHGAREDD ESTYNEDIG ysgrifennu'r geiriau disgrifio a ddefnyddiwyd er mwyn ysgrifennu cerdd neu ddarn ysgrifennu disgrifiadol.

GWEITHGAREDD 4

ORIEL NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio'r amgylchedd naturiol fel canolbwynt ar gyfer defnyddio iaith ddisgrifiadol a ffeithiol.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Fframiau cardfwrdd

Beth i'w wneud...

1. Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, dylai'r dysgwyr gymryd tro i ddal ffrâm cardfwrdd, gan ganolbwyntio ar rywbeth y maen nhw'n ei ystyried yn ddiddorol yn yr amgylchedd naturiol o'u cwmpas.
2. Gofyn i'r dysgwyr ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei weld yn y ffrâm yn fanwl gan egluro pam mae'n ddiddorol.

Gallwch ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy dynnu lluniau i'ch helpu i wneud copi o'r llun mewn cyfrwng arall fel collage neu ddarlun wedi'i beintio.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 5

TRYSOR CUDD

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn cyfuno chwarae gyda rhifau a chwarae ar eiriau.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Cynwysyddion casglu, e.e. hen focsys hufen ia,
Dewisol – clipfyrddau, papur, pensiliau

Beth i'w wneud...

1. Rhannwch eich dysgwyr yn grwpiau bach a rhoi cynhwysydd casglu i bob grŵp.
2. Egluro mai'r dasg yw casglu trysor natur o'r ardal gyfagos.
3. Gofyn iddyn nhw gasglu eitemau mewn lluosrifau sy'n lleihau e.e. 10 o un peth penodol, 9 o rywbeth arall, 8 o beth arall etc. Dylid rhoi'r eitemau a gasglwyd yn y twb casglu
4. Ar ôl gorffen casglu, gall pob grŵp drefnu eu gwrthrychau mewn setiau a'u gosod ar y llawr, gan neilltuo amser i arsylwi a defnyddio'u synhwyrau i archwilio'r gwrthrychau.
5. Dylid rhoi digon o amser i archwilio a thrafod yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod gyda'i gilydd.
6. Tasgu'r grwpiau gyda didoli a cyfrif y gwrthrychau sydd wedi'u canfod. Gofynnwch iddyn nhw ystyried ansoddeiriau addas, yna geiriau cyflythreniad sy'n cyfateb i'r enwau.

   Gall pob grŵp gasglu eu geiriau yn yr un fformat â'r Tabl enghreifftiol isod.

Rhif	Ansoddair		Enw
Pump	meddal	arnofio	plu
Pedwar	crenshlyd	bach	dail
Tri	crwn	solid	cerrig
Dau	syth	pitw	brigau
Un	anwastad	pigfain	conau

Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy chwilio am enwau torfol ar gyfer y gwrthrychau neu fathu geiriau newydd.

Gall DYSGWYR LLAI ABL ddefnyddio'r geiriau a gasglwyd i greu pennill ar odl, cerdd, rap neu gân (mae tôn '12 Days of Christmas' yn gweithio'n dda), neu ymarfer gwahanol reolau gramadeg trwy chwarae gyda geiriau neu fathu geiriau newydd.

Gall DYSGWYR MWY ABL gasglu llai o eitemau trysor, e.e. dechrau o 5. Neu gallant gasglu gwrthrychau a'u trefnu mewn gwahanol gynwysyddion, e.e. un ar gyfer gwrthrychau lympiog, un ar gyfer pethau caled.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 6

GWNEUD MARCIAU

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn edrych ar gyfleoedd i wneud marciau ym myd natur.

Beth i'w wneud...

1. Gofyn i'r dysgwyr ddod o hyd i nifer penodol o eitemau natur yn yr ardal gyfagos y gallant eu defnyddio i wneud marciau. Er enghraifft, 6 eitem – priciau, plu, cregyn, cerrig, coesynnau planhigion a dail. Gadewch ddigon o amser iddyn nhw fforio.
2. Gan ddefnyddio mwd, tywod gwlyb ac ati fel cynfas, gofynnwch i'r dysgwyr gwneud marciau hefo eu heitem natur. Gallan ysgrifennu ei henw, creu siâp neu ddargopïo gwrthrych naturiol arall gyda'r eitem.
3. Awgrymwch fod eich dysgwyr yn ceisio creu patrwm gyda'r eitemau naturiol trwy rolio, pwnio a phrocio.

Pa eitem weithiodd orau? Dylid caniatáu amser i'r dysgwyr weld beth mae eu cyfoedion wedi'i wneud.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 7

CYMERIADAU NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio gwrthrychau natur i greu cymeriad o'u hoff stori, tylwythen deg neu hyd yn oed nhw eu hunain er mwyn efelychu'r broses o greu stori.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Detholiad o eitemau crefft yn cynnwys glanhawyr pibell, tâp, llinyn, pinnau ffelt, blutac, siswrn, staplau a platiau papur.

Beth i'w wneud...

Trafod pa fath o gymeriad sydd fwyaf addas i'r grŵp ei wneud, yn dibynnu ar bwnc neu thema. Gofyn iddyn nhw ddefnyddio deunydd naturiol yn ogystal â deunydd crefft i greu eu cymeriad.

Gallech ystyried un o'r awgrymiadau hyn.

PERSON O FRIGAU

1. Gall y dysgwyr ddefnyddio brigyn ar siâp fforch i greu'r corff a'r coesau.
2. Gellir defnyddio glanhawyr pibell neu linyn er mwyn clymu ail frigyn ar draws y corff i greu'r breichiau.
3. Creu wyneb trwy glymu darn o glai neu cylch o gerdyn wedi'i addurno a darlunio nodweddion arno.
4. Defnyddio deunydd naturiol fel dail, gwair ac ati ar gyfer y gwallt a'r dillad.

TYLWYTHEN DEG NATUR

1. Gan ddefnyddio pren lolipop ar gyfer y corff, gall y dysgwyr wneud llun y wyneb a glynu gwrthrychau naturiol eraill iddo i greu'r breichiau, y coesau ac unrhyw nodweddion eraill, e.e. adenydd dail.

Dylid rhoi digon o amser iddyn nhw gasglu gwrthrychau naturiol a rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol o lynu neu glymu rhannau'r corff.

DW I'N GWELD Â'N LLYGAD BACH I

1. Rhoi'r dysgwyr mewn grwpiau bach a rhoi pâr o blatiau papur gyda chylch du wedi'i lunio ar y canol iddynt. Mae'r rhain yn cynrychioli llygaid person, anifail neu greadur cyfriniol.
2. Gan osod y llygaid ar y llawr, gall y grwpiau weithio gyda'i gilydd i ddefnyddio deunydd naturiol fel dail, tywod, cregyn môr neu frigau i greu corff a nodweddion corfforol y cymeriad a ddewiswyd.

Gellir dweud wrth DYSGWYR LLAI ABL am greu cymeriad stori, meddwl am enw i'r cymeriad ac yna eu bod nhw'n cael amser i fynd â'r cymeriad ar daith neu antur o gwmpas yr ardal. Gofynnwch iddyn nhw gyflwyno'r cymeriad, disgrifio beth a welwyd ar y ffordd a ble aethon nhw neu sut y daeth eu cymeriad i fyw yn y safle maen nhw'n ei ddefnyddio?

Gellir rhoi DYSGWYR MWY ABL mewn grwpiau bach a rhoi amser iddyn nhw greu stori sy'n cynnwys pob un o'r cymeriadau. Gallant gymryd wedyn eu tro i actio'r stori gyda'r cymeriadau neu greu darn ysgrifenedig.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 8

GÊM ENWAU ANIFEILIAID

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd grŵp hwn yn defnyddio cyflythrennu.

Beth i'w wneud...

1. Gofyn i'r grŵp sefyll mewn cylch yn wynebu ei gilydd.
2. Dewis un dysgwr i fynd yn gyntaf ac egluro fod angen iddyn nhw feddwl am anifail sy'n dechrau gyda'r un llythyren â'u henw cyntaf a gwneud symudiad ar gyfer yr anifail hwnnw.

   Er enghraifft, Enw – Gwenno Gwylan
   Symudiad – chwifio adenydd.
3. Mae'r person nesaf yn y cylch yn ailadrodd yr enw cyntaf â'r symudiad cyn ychwanegu eu henw nhw.
4. Ewch o amgylch y cylch tan fod enw pawb wedi'i gynnwys.



GWEITHGAREDD 9

DYCHYMYG NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio dychymyg ac iaith ddisgrifiadol i ailddefnyddio gwrthrychau naturiol at bwrpas newydd.

Beth i'w wneud...

1. Gofyn i'r dysgwyr ddod o hyd i wrthrych naturiol diddorol.
2. Gofyn iddyn nhw ddychmygu beth allai'r gwrthrych fod a sut gellid ei ddefnyddio. Er enghraifft, gallai brigyn fod yn ffon hud i ddewin neu rhwyf ar gyfer llong môr ladron ayb.

Mae'r dysgwyr yn cymryd tro i rannu'r wybodaeth newydd gyda gweddill y grŵp.

Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy gysylltu pob eitem, fesul un, mewn stori i'r grŵp neu trwy ysgrifennu straeon creadigol am eitemau unigol.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 10

BRIGAU TEITHIO

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn cefnogi ailadrodd hanes taith.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Gwlân a llinyn

Beth i'w wneud...

1. Ar ddechrau taith gerdded natur, gofynnwch i'r dysgwyr ddod o hyd i frigyn sydd mor hir â'u braich y gallant glymu eitemau iddo.
2. Rhoi darn o wlân neu linyn i bob dysgwr ar ddechrau'r daith gerdded er mwyn iddyn nhw allu clymu'r eitemau i'r brigyn yn eu trefn gronolegol wrth gerdded.
3. Wrth i'r daith gerdded fynd rhagddi, dylent edrych am eitemau o ddiddordeb fel dail, hadau a blodau, gan geisio cofio ble y daethpwyd o hyd iddyn nhw.
4. Wrth fynd yn ôl i'r man dechrau, gall y dysgwyr defnyddio eu brigau teithio i'w helpu i gofio neu ysgrifennu hanes eu taith a'r hyn a welwyd arni.

Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy ymchwilio i ddefnydd hanesyddol brigau teithio gan bobl cynhenid fel cynfrodorion Awstralia, brodorion cynhenid America, ayb.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 11

SAFFARI BYCHAN

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog edrych ar bersbectif gwahanol ar gyfer adeiladu stori.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Darnau hyd braich o wlân/llinyn, chwyddwydrau

Beth i'w wneud...

1. Rhoi darn o wlân neu linyn i bob dysgwr.
2. Gofyn iddyn nhw osod y darn o wlân neu linyn ar hyd lle naturiol, diddorol.
3. Egluro i'r dysgwyr eu bod nhw'n mynd i ddychmygu eu bod wedi cael eu gwneud yn fach, fach ac mai'r gwlân/llinyn yw'r llwybr y dylent ei ddilyn.
4. Gan ddefnyddio chwyddwydr, gall y dysgwyr archwilio pob manylyn bach o'r dirwedd o'u cwmpas gan fynd o un pen y llinyn i'r llall.
5. Trafod beth mae creaduriaid bach fel morgrug yn ei brofi wrth symud dros y tir. Sut byddai person yn teimlo pe bai modd iddyn nhw droi'n fach fel morgrugyn? Pa heriau fydden nhw'n dod ar eu traws ar daith/antur ar y raddfa hon?
6. Gofyn iddyn nhw ddrafftio stori am eu hantur fach cyn rhannu gydag eraill.



Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 12

BARDDONIAETH NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgareddau hyn yn defnyddio natur i ysbrydoli ystod o wahanol arddulliau barddoniaeth.

Beth i'w wneud...

DYFALU

Creu rhwng 4 a 6 o gwpledi dau air ar odl er mwyn disgrifio beth yw'r eitem/gwrthrych a beth mae'n ei wneud i roi cliwiau i eraill ddyfalu beth yw'r gwrthrych.

Er enghraifft:

Nodwyddau symudol, pelen gyfareddol, nofiwr cyfrinachol, cysgwr gaeafol = draenog

PUMAWD

Dilynwch fformiwla syml i greu cerdd fer.

Llinell 1 enw un gair ar gyfer y gwrthrych a ddewiswyd.

Llinell 2 dau ansoddair sy'n disgrifio'r gwrthrych.

Llinell 3 tair berf i ddisgrifio beth mae'r gwrthrych yn ei wneud.

Llinell 4 brawddeg am y gwrthrych, e.e. sut mae'n gwneud i chi deimlo.

Llinell 5 enw un gair arall am y gwrthrych.

Er enghraifft:

Coeden,
Cryf a thal,
Plygu, cysgodi, byw,
Darparu cartref hapus a dedwydd i lawer,
Cynefin.

HAICW

Cerdd fer Japaneaidd yw Haicw sy'n cynnwys 17 sillaf a thri phennill, fel arfer mewn patrwm o 5, 7 a 5.

Gellir ei symleiddio yn ôl yr angen.

Er enghraifft:

Pwll glas = 2 sillaf
Naid llyffant = 3 sillaf
Tasgu dŵr = 3 sillaf

CERDD ACROSTIG

Ysgrifennwch air addas o fyd natur i lawr ochr darn o bapur. Defnyddiwch y llythyren gyfatebol i'ch helpu i feddwl am eiriau sy'n gysylltiedig â'r pwnc.

Er enghraifft:

D aw
E eto
I
L enwi
E in
N atur

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 13

GEMAU CHWARAE AR EIRIAU

Crynodeb

Mae'r gweithgareddau hyn yn defnyddio arsylwi i ddatblygu geirfa.

Beth i'w wneud...

DW I'N GWELD GYDA'M LLYGAD BACH I

I'w chwarae yn y dull traddodiadol mewn unrhyw ofod natur.

DW I'N CLYWED GYDA 'NGHLUST FACH I

Chwarae yn yr un modd â 'Dw i'n gweld' ond gan ddefnyddio homoffonau – gair sy'n swnio fel gair arall ond sy'n cael ei sillafu'n wahanol ac sydd ag ystyr gwahanol.

Er enghraifft:

Dw i'n clywed gyda 'nghlust fach i, rywbeth sy'n swnio fel côr = môr, 'troed' = coed.

3X3X3

1. Dewiswch adnodd neu wrthrych naturiol fel canolbwynt.
2. Ysgrifennwch restr o 3 gair i ddisgrifio'r gwrthrych.
3. Gwnewch restr tri gair arall, ac yna un arall.

Enw'r adnodd naturiol: Môr

Rhestr 1	Rhestr 2	Rhestr 3
Gwlyb	Meddal	Uchel
Gwyllt	Llyfn	Rhuo
Tonnau	Sidan	Hallt

Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy wneud mwy o restrau. Defnyddiwch y geiriau a gasglwyd i greu cerdd neu stori am y gwrthrych a ddewiswyd.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 14

YSGRIFENNU CYFARWYDDIADAU

Crynodeb

Mae nifer o weithgareddau dysgu yn yr awyr agored yn cynnig cyfleoedd gwych i ddatblygu sgiliau ysgrifennu cyfarwyddiadau, yn unigol, mewn parau neu mewn grwpiau bach.

Beth i'w wneud...

1. Adeiladu lloches, yna datblygu canllaw cam wrth gam.
2. Gwneud llwybr i eraill ei ddilyn ac ysgrifennu cyfarwyddiadau manwl.
3. Creu rysait penodol iawn ar gyfer cymysgedd drewllyd neu Bwydlen Natur.
4. Cadw Dyddiadur Natur.





GWEITHGAREDD 15

LLWYBRAU STORI

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar ailadrodd hoff straeon ar hyd llwybr natur.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

CYMORTH GWELEDOL - fel cardiau stori, cliwiau, cymeriadau stori neu propiau ar gyfer adrodd stori

Llinyn

Beth i'w wneud...

1. Dewis stori addas ar gyfer y pwnc neu'r thema.
2. Clymu neu osod y cymorth gweledol, cliwiau etc mewn mannau allweddol ar hyd y llwybr a ddewiswyd.
3. Gwahodd y grŵp i ddilyn y llwybr ac ailadrodd y stori wrth bob cliw sydd wedi ei osod ar hyd y ffordd.

Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy gysylltu gweithgareddau eraill i'r stori ar hyd y ffordd. Er enghraifft, cynrychioli cymeriad, adeiladu cartref i un o'r cymeriadau neu creu 'bwydlen swper'.

Rhowch arwyddion ar hyd y llwybr gan ddefnyddio brigau neu saethau sialc.

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 16

BWYDLEN NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i ddefnyddio iaith ddisgrifiadol sy'n gysylltiedig â chymeriadau ffuglen a ffeithiol.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

DEWISOL – platiau papur

Beth i'w wneud...

1. Gweithio mewn parau neu grwpiau bach iawn.
2. Trafod beth fyddai mewn pryd 3 chwrs (neu frecwast, cinio a swper) i gymeriad neu anifail penodol yn cynnwys.

Er enghraifft: pa fath o fwyd a diod fyddai cawr, coblyn neu ellyll yn ei fwyta?

3. Gofynnwch i'ch dysgwyr gasglu deunyddiau naturiol i baratoi eu pryd 3 chwrs. Defnyddiwch y platiau papur i weini'r pryd bwyd neu glirio lle addas ar y llawr.
3. Ysgrifennu'r ryseitiau a'r cynlluniau bwydlen.

Gellir ESTYN Y GWEITHGAREDD trwy roi'r ryseitiau a'r bwydlenni at ei gilydd i greu 'llyfr coginio' i'r grŵp. Ydy'r grwpiau'n gallu efelychu bwydlenni ei gilydd?

// DEWIS ARALL – ceir deilliannau tebyg o egluro bod yr anifeiliaid sy'n byw yn...enw eich lleoliad natur lleol... wedi dod at ei gilydd i brynu tecawê ar Nos Wener.

Gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, mae angen i'r grŵp greu:

1. Mae Tylluan eisiau 'pitsa llygoden'. Mae Tylluan wedi dweud yn benodol mai dim ond ar un hanner y pitsa mae hi eisiau caws a byddai'n hoffi i'r pethau sy'n mynd ar ben y pitsa gael eu gosod mewn ffordd gymesur.
2. Mae Cwningen eisiau 'cebabs dail'. Mae Cwningen wedi dweud ei bod hi eisiau o leiaf bum deilen ar bob cebab ond dim mwy na 10 – mae hi'n cadw llygad ar ei phwysau.
3. Mae Draenog wedi gofyn am 'bryd arbennig y cogydd'.

Gosodwch y bwrdd i fod yn barod – mae'r anifeiliaid yn llwglyd!

Iaith a Llythrennedd yn yr awyr agored

// Gemau a Gweithgareddau

GWEITHGAREDD 17

CAMERA NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio iaith ddisgrifiadol i ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei arsylwi ar y pryd.

Beth i'w wneud...

1. Rhannu'r grŵp yn barau, gydag un yn cymryd rôl y 'camera' a'r llall yn ymddwyn fel 'gweithredwr camera'.
2. Gofyn i'r 'gweithredwr' symud y 'camera' yn ofalus i ardal ddiddorol o'u dewis nhw.
3. Mae'n rhaid i'r 'camera' gadw'u llygaid ar gau tan i'r 'gweithredwr' weld rhywbeth mae ef neu hi eisiau tynnu llun ohono.
4. Mae'r 'gweithredwr' yn pwyso clust/braich/ysgwydd y 'camera' am 3-5 eiliad – ac mae'r camera yn agor ei l/llygaid.
5. Wedyn, mae'r 'camera' yn cau ei l/llygaid eto ac yn ceisio disgrifio'r llun gan ddefnyddio cymaint o iaith ddisgrifiadol â phosibl.

GWEITHGAREDD 18

LLWYBR DI-NATUR

Crynodeb

Mae'r gweithgaredd hwn yn esgor ar drafodaeth, safbwyntiau personol a chyfle i ddisgrifio deunyddiau.

Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Llinyn phegiau, menyg diogelwch a/neu declyn casglu sbwriel.

Beth i'w wneud...

1. Clymu'r llinyn rhwng dau bostyn neu ddwy goeden i greu 'lein ddillad'.
2. Gofyn i'r dysgwyr edrych am bethau nad ydyn nhw'n gynhenid i'r ardal, gan fod yn ofalus i beidio â chyffwrdd dim byd sy'n finiog neu'n beryglus.
3. Wrth i'r grŵp gasglu eitemau, clymwch i'r lein ddillad neu eu gosod arni gyda'r pegiau.
4. Edrych ar beth mae'r grŵp wedi dod o hyd iddo a thrafod sut gallai'r eitemau fod wedi cyrraedd yno. O beth mae'r eitemau wedi'u gwneud a pha fath o effaith gallen nhw ei chael if adawyd yno? A allai anifail gael ei anafu gan y gwrthrych?
5. Trafod sut mae'r grŵp yn teimlo am ddod o hyd i bethau nad ydynt yn naturiol mewn gofod natur o'r fath.